



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Llechryd
Llechryd
Aberteifi
SA43 2NL**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Llechryd

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd ym mhentref Llechryd tua thair milltir i'r de o dref Aberteifi. Mae 62 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed yn cael eu haddysgu mewn tri dosbarth oedran cymysg.

Daw 10% o'r disgyblion o gartrefi ble lle siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd. Mae tua 20% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 42% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae bron pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2013.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Ionawr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae Ysgol Llechryd yn ysgol hapus a gofalgarg gydag ethos cryf o gynhwysiant yn treiddio drwyddi. Mae pob disgybl yn cael eu cynnwys yn llwyr ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod o effeithiol. Mae hi'n rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus ar gyfer ysgol hapus a chynhwysol lle mae pob disgybl yn cael ei annog i ddatblygu hyd eithaf ei allu.

Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm eang ac ysgogol, a phrofiadau a heriau cyffrous i'r disgyblion sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

A1 Codi safon iaith lafar disgyblion y cyfnod sylfaen

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn y cyfnod sylfaen

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion y medrau disgwylidig ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau gwranddo yn effeithiol. O oed cynnar, mae'r rhan fwyaf yn gwranddo'n astud a'r oedolion a'i gilydd. Er bod rhan fwyaf y disgyblion yn caffael geirfa a chystrawen briodol, nid yw'r mwyafrif yn eu defnyddio'n hyderus wrth ymateb i oedolion nac wrth sgwrsio gyda'u cyfoedion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u medrau llafaredd yn gadarn yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n dda at drafodaethau, gan fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed. Maent yn defnyddio geirfa addas a chywir, sy'n berthnasol i'r pwnc yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod trychfilod a phlanhigion yng ngardd yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth ffonolegol yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn adnabod geiriau newydd yn llwyddiannus. Defnyddiant fedrau darllen cynnar yn gadarn wrth gywain gwybodaeth o destun a chofnodi drwy ddarlunio. Mae'r darllenwyr cryfaf yn darllen yn rhugl ac yn adnabod pwrpas yr atalnodi yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn esbonio teimladau a phenderfyniadau cymeriadau o fewn y stori yn dda, ac mae llawer yn medru dyfalu yn synhwyrol resymau am benderfyniadau neu meddylfryd cymeriadau. Trafodant gynnwys eu llyfrau yn aeddfed yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio'u medrau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio am wybodaeth ar y we yn Saesneg i greu pamffled Cymraeg ynglŷn â chadw'n heini.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau, ac mewn cyfres o frawddegau cyffrous gyda chywirdeb cynyddol, er enghraifft wrth ysgrifennu portread. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion nifer o ffurfiau ysgrifennu, ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth i ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion hŷn yn dewis geirfa ddiddorol ac maent yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r gynulleidfa, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ffeithiol am ymweliad â Thŷ Ddewi neu greu chwedl fodern yn seiliedig ar Culwch ac Olwen neu'r Twrch Trwyth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif. Trwy'r cyfnod sylfaen, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, arian, amser a thrin data. Maent yn gwneud hyn o fewn a thu allan i'r dosbarth; er enghraifft, maent yn dysgu sut i amcangyfrif cyfaint gwrthrychau drwy arbrofi gyda chynhwysyddion gwahanol yn y twb dŵr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o gyfesurynnau i ddatrys tasgau heriol fel adlewyrchu

cymesuredd yn y pedwar cwadrant. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth mewn amrywiol bynciau ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwysu'u medrau yn llwyddiannus iawn wrth gwblhau prosiectau gwyddonol, er enghraifft wrth ymchwilio i hyblygrwydd traed yn dilyn gwahanol weithgareddau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio pecynnau arlunio yn hyderus wrth efelychu artistiaid. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn gallu mewnbynnu data syml i daenlen er mwyn creu graff gyda'r wybodaeth. Maent yn rhaglennu tegan cyfrifiadurol i symud i bwynt penodol ar fap yn annibynnol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd da ar draws cyfnod allweddol 2. Maent yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn llwyddiannus i gyflwyno'u gwaith a rhaglenni cyflwyno i gyfleu gwybodaeth i'r dosbarth a'r ysgol gyfan. Maent yn creu basau data yn llwyddiannus ac yn dehongli'r data yn gywir, er enghraifft wrth ddefnyddio bas data i gofnodi faint o gwsg gafodd aelodau'r dosbarth yn ystod y penwythnos.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae safonau lles y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda, ac mae agwedd y rhan fwyaf at waith a bywyd bob dydd yr ysgol yn gadarn.

Mae'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan aelodau pwyllgorau a chynghorau'r ysgol yn sicrhau bod staff a'r disgyblion yn cydweithio tuag at sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol. Mae bron pob disgybl cyfnod allweddol 2 yn perthyn i un o amrywiol bwyllgorau'r ysgol. Mae aelodau'r pwyllgor 'Technotastig' yn effeithiol iawn wrth hybu medrau eraill mewn TGCh ac wrth atgoffa ac addysgu eraill am bwysigrwydd e-ddiogelwch. Er enghraifft, maent yn creu posteri defnyddiol i atgoffa disgyblion am beryglon gwefannau cymdeithasol ac o ddatgelu cyfrineiriau. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar y wê. Maent yn medru trafod sut i ymateb pan fo dieithryn yn ceisio cysylltu â nhw, ac yn ymwybodol iawn o beryglon datgelu gwybodaeth bersonol. Mae llysgenhadon y Siarter Iaith, sef y grŵp 'Lleisiau Llechryd', yn cyflawni eu rolau yn dda. Trwy'r cymeriadau 'Seren a Sbarc' maent yn sicrhau bod disgyblion yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ystod cyfnodau egwyl yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned leol ac mewn gwledydd eraill ar draws y byd. O ganlyniad, mae aelodau 'Lleisiau Llechryd' yn ymateb i ofynion y Siarter Iaith yn llwyddiannus ac yn ymdrechu i annog eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn amlach yn ystod gwersi ac yn achlysurol.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta ffrwythau, yfed dŵr a bod cynnwys eu bocsys bwyd yn iachus. Maent yn deall manteision ymarfer y corff yn rheolaidd ac yn gallu trafod yn ddeallus y rhesymau pam y mae'n bwysig rhedeg milltir bob dydd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn datblygu agwedd bositif at gadw'n heini ac yn sylweddoli gwerth bwyta'n iach.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac ar yr iard yn dda. Maent yn gwrtais, yn ofalgar, ac yn dangos parch at ei gilydd ac wrth oedolion.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae safon yr addysgu yn dda. Mewn llawer o ddsbarthiadau, mae'r athrawon yn gosod her uchel a chyson i'r disgyblion sy'n eu cadw ar dasg am gyfnodau estynedig. Mewn llawer o ddsbarthiadau, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn teilwra gwaith yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion o bob gallu. Mewn llawer o'r dosbarthiadau, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus, sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu.

Mae'r athrawon a'r cynorthwyon yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion gan holi'n fedrus a'u hannog i feddwl. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr athrawon, y cynorthwyon a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae hyn yn annog parch a chwarteisi y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac yn ychwanegu at yr ethos o gynhwysiant drwy'r ysgol. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw oedolion bob tro'n gosod her ddigonol i unigolion. Yn gyffredinol, mae staff yn fodolau iaith effeithiol ac yn defnyddio iaith gyfoethog a chywir gyda'r disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio cywirdeb iaith lafar y disgyblion yn ddigon rheolaidd. Mae hyn yn arwain at safon is na'r disgwyl mewn llafaredd yn y cyfnod sylfaen.

Mae athrawon yn rhoi adborth priodol i ddisgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae ymateb ysgrifenedig i waith disgyblion yn syml ac yn effeithiol. Mae'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar eu llwyddiannau a beth sydd angen ei wella. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu medrau a chynnwys eu gwaith wrth ailddrafftio agweddau penodol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod sut maent wedi gwella'u gwaith yn hyderus ac yn dangos y cynnydd y maent wedi gwneud fel canlyniad i'r adborth.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn cynnig profiadau a heriau cyffrous i'w disgyblion, sydd fel arfer yn cymell eu diddordeb a'u brwdfrydedd i ddysgu. Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr ac ymweliadau addysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm ac i ddatblygu medrau disgyblion o fewn prosiectau arbennig. Er enghraifft yn ystod prosiect creadigol yng nghyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a'u creadigrwydd i greu chwedlau modern sy'n efelychu priodweddau storïau traddodiadol y Mabinogi. Ar frig cyfnod allweddol 2, maent hefyd yn darparu cyfres o themâu ac arbrofion gwyddonol ysgogol. Mae'r arbrofion wedi eu cynllunio yn hynod effeithiol i ddatblygu medrau'r disgyblion, sy'n adeiladu'n llwyddiannus iawn ar eu dysgu blaenorol. Maent yn gwneud y gorau o'r ardal natur y tu allan i'r dosbarth, er enghraifft i gasglu a thynnu lluniau planhigion a thrychfilod er mwyn eu hastudio yn ôl yn y dosbarth.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion ac ethos y cyfnod sylfaen. Maent yn gwneud defnydd addas o'r ardaloedd y tu fewn i'r dosbarth ac yn yr awyr agored er mwyn datblygu medrau'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a TGCh y disgyblion trwy gyfrwng themâu a phrofiadau dysgu diddorol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd yn y cyfnod sylfaen i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Mae datblygiad effeithiol o'r Siarter Iaith wedi dechrau codi ymwybyddiaeth a balchder disgyblion yn eu hiaith a'u gwlad. Caiff hyn ei ategu yn llwyddiannus wrth i'r athrawon gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant eu hardal leol.

Mae'r athrawon a'r cynorthwyon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac yn sicrhau bod cefnogaeth gynhwysfawr yn cael ei darparu ar eu cyfer. Mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth sydd wedi ei chynllunio ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol. O ganlyniad, mae hyder disgyblion bregus, a'u dealltwriaeth o ymddygiad cymdeithasol, wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o fywyd ysgol ac yn ddisgyblion sy'n barod i fynegi barn mewn trafodaethau a chydweithio'n llwyddiannus mewn cyfarfodydd a phwyllgorau. Mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion dwys, a'r rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn ei phwyllgorau. Mae hyn yn gryfder, ac yn ychwanegu at yr ymdeimlad cynhwysol sydd drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r gefnogaeth y mae'n ei derbyn gan asiantaethau allanol sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd, er mwyn cefnogi cynnydd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol er mwyn bodloni anghenion unigolion fel bod pob disgybl yn profi llwyddiant ac yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu datblygiad.

Mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau rhieni buddiol er mwyn gwella dealltwriaeth rhieni o strategaethau darllen a magu eu hyder wrth gefnogi eu plant gyda gwaith cartref rhifedd.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i'r disgyblion wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n cael ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn cynnwys y disgyblion mewn trafodaethau cychwynnol wrth greu mapiau meddwl wrth gyflwyno themâu newydd ac mae'r athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth gynllunio gwaith y tymor.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn annog disgyblion i feddwl yn greadigol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi derbyn grant i ddatblygu creadigrwydd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant yn llwyddiannus i ddarparu cyfleoedd cyffrous i'r disgyblion greu chwedlau modern ynglŷn â gwastraff, sbwriel a phlastig. Fel rhan o'r gwaith hwn, daeth darlunydd a bardd adnabyddus i weithio gyda'r disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol ymhellach.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod gydwybodol ac effeithiol. Mae ganddi weledigaeth glir a chadarn ar gyfer ysgol hapus a chynhwysol lle mae disgyblion yn cael eu hannog i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Mae'r athrawon a'r staff cefnogi yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus trwy annog gwerthoedd sylfaenol yr ysgol sy'n cael eu hymgorffori yn yr arwyddair 'o'r fesen fach i'r gangen uchaf, anelwn am ragoriaeth'. Fodd bynnag, cyfyng yw'r amser rheolaidd o fewn amser ysgol sydd gan y pennaeth i gyflawni dyletswyddau rheoli ac arwain.

Mae'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr a chyfredol am ddata perfformiad tros gyfnod, am gynnydd disgyblion ac am anghenion datblygiad yr ysgol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ymweld â gwersi trwy gymryd rhan mewn teithiau dysgu a thrwy graffu ar waith disgyblion. Maent yn trafod gyda staff ac yn derbyn gwybodaeth drylwyr gan y pennaeth mewn cyfarfodydd llawn ac is-bwyllgorau. O ganlyniad i'r wybodaeth drylwyr sydd ganddynt, mae eu rôl fel 'cyfaill beirniadol' i'r ysgol wedi datblygu'n gadarn.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac wedi eu seilio ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae gan arweinwyr wybodaeth fanwl am safonau a chynnydd disgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu. Trwy arsylwadau gwersi, craffu ar gynlluniau a chraffu ar waith disgyblion, mae arweinwyr yn dod i farn gytbwys ynglŷn â'r blaenoriaethau gwelliant angenrheidiol. Mae'r pennaeth yn arsylwi gwersi yn rheolaidd gan sicrhau ffocws cytunedig. Mae'n paratoi gwerthusiad priodol yn sgil yr ymweliad gan nodi cryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn bob amser yn ddigon miniog wrth ymateb i safonau a chynnydd disgyblion, nac i anghenion datblygiad athrawon.

Mae'r cynllun datblygu ysgol o safon dda. Mae'n amlinellu'r camau penodol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael yn effeithiol â'r gwahanol flaenoriaethau. Mae'r blaenoriaethau'n cael eu rhannu'n gamau gweithredu llai, ac mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn rheolaidd, gan raddoli eu barn yn ystod y flwyddyn yn unol ag effeithiolrwydd y gweithredu. Enghraifft o effaith gadarnhaol cynlluniau gwelliant yw'r gwaith llwyddiannus ar ddatblygu tasgau amrywiol sy'n cwrdd yn effeithiol ag anghenion disgyblion o wahanol alluoedd ar draws cyfnod allweddol 2.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus ac effeithiol. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae grantiau'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus i sicrhau cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion penodol, er enghraifft wrth ddarparu ymyraethau arbenigol. Mae gan yr ysgol amrediad effeithiol o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n greadigol i hyrwyddo'r profiadau dysgu a chael dylanwad cadarnhaol ar gynnydd bron bob disgybl. Mae ardaloedd mewnol ac allanol yr ysgol yn cael eu defnyddio'n gelfydd i hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn gadarn ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cyfredol ynghyd ag anghenion datblygiad staff.

Adroddiad ar Ysgol Llechryd
Mai 2018

Mae trefniadau trosglwyddo o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2 yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a chynnydd disgyblion ac yn defnyddio cryfderau athrawon a staff yn llwyddiannus.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2018